COFNODION PWYLLGOR GWAITH Y SIR A GYNHALIWYD AR NOS FERCHER 17eg O DACHWEDD 2021

CADEIRYDD: Bleddyn Davies

YMDDIHEURIADAU: Aled Davies; Esyllt Ellis Jones; Heledd Besent a Glyn Davies

PRESENNOL: 30 yn ôl llyfr presenoldeb

Cyn dechrau'r cyfarfod gwnaeth y Cadeirydd gyhoeddi os oedd rhywun am ddatgan diddordeb ar un o'r pwyntiau i wneud cyn dod at y pwynt dan sylw. Aeth y Cadeirydd ymlaen i longyfarch y canlynol;

- Pawb a fu'n cystadlu yn yr Eisteddfod ac yn y Diwrnod Maes.
- I'r Sir ar ennill £500 yn Gwobrau Tu hwnt i'r Sêr.
- Hefyd i'r Sir ar gyrraedd y rhestr fer yn cynorthwyo yn y gymuned yn ystod y pandemig a diolch i'r rhai a fuodd yn ffilmio ffilm fer o'r gwaith.
- I Alaw Aur a Mark Bowkett ar eu priodas.
- I Mererid a Dafydd Jones ar enedigaeth mab o'r enw Bedwyr Ifan; i Delor a Huw ar enedigaeth mab o'r enw Dion Dafydd; i Bryn a Sian Williams ar enedigaeth merch fach o'r enw Nel.

29 Cadarnhau cofnodion y cyfarfod diwethaf
Cynigiwyd fod cofnodion y cyfarfod diwethaf yn gywir gan Lowri Jones ac eiliwyd gan Mared Lloyd-Jones.

30 Materion yn codi o'r cofnodion
Nid oedd yna faterion yn codi.

31 Gohebiaeth
- Trip Materion Gwledig ar Nos Fercher 8fed o Ragfyr I Glanrhyd, Aberteifi. Angen enwau I'r swyddfa erbyn y 6ed o Ragfyr.
- Llythyr wrth Tafarn y Vae I ymuno yn y fenter gymunedol.

32 Adroddiad y Trysorydd

Cyfrif Cyfredol:	£ 3,508.14	Clwb 200:	£1,460.00
Cyfrif Cadw:	£100,378.70		

Nododd Anne bod anfonebau Yswiriant yn y pecynnau misol. Mi fyddai'r anfonebau am yr aelodaeth; Cyw iâr a Ffensio yn cael eu ebostio ymlaen i'r clybiau.

33 Adroddiad Fforwm Ieuenctid
Derbyniwyd adroddiad gan Beca Jenkins a braf gweld cynifer o aelodau wedi ymuno â'r Fforwm Ieuenctid.

34 Adroddiad Gweithgareddau
Derbyniwyd adroddiad gan Sioned Davies.

35 Derbyn adroddiadau
Derbymiwyd adroddiad gan Einir Ryder o gyfarfod Pwyllgor Rheoli a Chyllid y Sir.
Derbyniwyd adroddiad gan Anne Jones o gyfarfod Staff C.Ff.I. Cymru.
Derbyniwyd adroddiad gan Anne Jones o gyfarfod gyda'r Cyngor am trwydded i'r Canu Carolau.

36 Her y Llywydd
Cynhelir her y Llywydd sef Taith Tractor Nadoligaidd ar y 12fed o Ragfyr ac i ddechrau am 10.30 o Neuadd Goffa Pontsian. Bydd Ocsiwn i ddilyn am 2.30. Bydd cyfraniadau o'r diwrnod yn mynd i'r elusennau canlynol: CFfI Ceredigion; Tir Dewi; DPJ a RABI. Pris fydd £10 y tractor ac mi fydd gwobr i'r tractor sydd wedi ei addurno orau.

37 Polisiau
Cymeradwywyd a derbyniwyd y polisiau canlynol yn y Sir.
Hysbysiad Preifatrwydd; Polisi Iaith Gymraeg; Diogelu Data a Cydraddoldeb

38 Clwb 200

Tachwedd 2021

1af – Rhian Jones, Blaencwmerwydd, Horeb, Llandysul

2il – CFfI Llanddeiniol

3ydd – Geraint a Caroline Davies, Fron, Pontsian

39 <u>Unrhyw fater arall</u>

Pwyllgor Dathlu – Penderfynwyd i ffurfio pwyllgor dathlu yn y cyfarfod nesaf.

Dymunwyd yn dda i bawb a fyddai yn cystadlu yn yr Eisteddfod CFFI Cymru ac yn y Ffair Aeaf.

Arwyddwyd gan y Cadeirydd: _____

Dyddiad: _____